Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21 yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020

Hydref 2020

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020. Fe'i paratowyd ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o'r graddau y cyflawnwyd y canlynol:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2020-21;
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; ac
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni ein targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os bydd angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500
E-bost post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru
Twitter @WalesAudit

This document is available in English.

# Cynnwys

Rhagair 4

## Cyflawni gwaith archwilio 7

Mae gwaith archwilio ar y safle yn dal i gael ei atal, ond rydym yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni ein rhaglen lawn o waith archwilio cyfrifon. Rydym wedi addasu ein rhaglenni gwaith gwerth am arian lleol a cenedlaethol yn briodol, ochr yn ochr â chyflwyno rhaglen dysgu COVID newydd

## Rhedeg y busnes 18

Rydym wedi monitro'r sefyllfa COVID-19 sy'n symud yn gyflym ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i gefnogi ein staff i weithio o bell drwy ddefnyddio ein hegwyddor am y chwe mis diwethaf: 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'

## Dangosyddion perfformiad allweddol 25

Yr ydym wedi cyflawni neu'n agos at gyrraedd ein targedau ar gyfer y rhan fwyaf o'n 18 dangosydd perfformiad allweddol

## Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol 29

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 30

3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol 32

# Rhagair

Mae ein Cynllun Blynyddol, a gyhoeddwyd ar ddiwedd mis Mawrth, yn nodi'r camau roeddem yn bwriadu eu cymryd yn 2020-21 tuag at gyflawni ein huchelgeisiau sefydliadol a'n hamcanion strategol.

Fodd bynnag, ychydig cyn ei gyhoeddi, bu'n rhaid i ni ymateb i amgylchiadau eithriadol pandemig COVID-19. Fel pawb arall, newidiwyd ein blaenoriaethau pennaf wrth i ni ganolbwyntio ar lesiant ein cyflogeion, sicrhau parhad busnes a chefnogi'r sector cyhoeddus a'r gymuned ehangach.

Rhoddais wybod yn ddi-oed i'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym y byddem yn mabwysiadu dulliau gweithredu amgen ac yn rhoi ffocws newydd i lawer o'n gwaith er mwyn sicrhau nad oedd yn ychwanegu at y pwysau a oedd yn wynebu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn ymwybodol iawn bod Archwilio Cymru yn meddu ar yr arbenigedd hanfodol i helpu Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach i ymateb i rai o'r heriau a wynebwn.

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn rhoi crynodeb o'r addasiadau a wnaed gennym i'r rhaglenni gwaith gwreiddiol a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol mewn ymateb i sefyllfa COVID-19, a'r cynnydd a wnaed gennym dros y chwe mis diwethaf o ran cyflawni'r cynlluniau diwygiedig hynny. Yn gryno:

- ar ddechrau'r cyfyngiadau symud, rhoddwyd y gorau i weithio ar y safle mewn cyrff a archwilir a chaewyd ein swyddfeydd ein hunain.
- ers hynny, mae ein holl staff wedi gweithio gartref, ac wedi cael y TG angenrheidiol a chymorth o ran cyfarpar swyddfa gartref.
- golygai hyn newid enfawr yn ein model gweithredol wrth i ni ymgysylltu â'r cyrff a archwilir gennym a chyflawni ein gwaith o bell.
- aethom ati'n ddi-oed mewn partneriaeth â'r cyrff a archwilir gennym i bennu ffyrdd newydd o weithio er mwyn cyflawni ein holl waith archwilio, er enghraifft drwy gael mynediad o bell at systemau ariannol neu ddatblygu trefniadau rhannu ffeiliau electronig. Er bod hyn wedi cymryd mwy o amser ar y cyfan, rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau statudol o ran archwilio cyfrifon ac wedi llunio arferion a fydd yn fuddiol i ni yn y dyfodol.

- rydym wedi ail-lunio ein rhaglenni o astudiaethau gwerth am arian, yn genedlaethol ac mewn cyrff unigol a archwilir, er mwyn cydnabod a chefnogi ymateb y sector cyhoeddus i'r pandemig. Roedd hyn yn golygu gohirio neu gwtogi ar waith â blaenoriaeth is a cheisio osgoi effaith andwyol ar yr ymateb rheng flaen i COVID-19, a pharhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol ar yr un pryd.
- rydym wedi sefydlu ein Prosiect Dysgu am COVID, gan ddefnyddio ein rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau ym mhob rhan o'r gwasaneth cyhoeddus i gasglu enghreifftiau o arferion da newydd ac arloesol, a'u cyfleu mewn amser real fwy neu lai.
- rydym wedi paratoi i'r staff ddychwelyd yn ddiogel i'n swyddfeydd pan fydd hynny'n briodol o dan reoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- llesiant y staff fu ein blaenoriaeth drwy'r cyfan, sydd wedi canolbwyntio ar ddull gweithredu 'hunan, teulu, gwaith … yn y drefn honno'. Aethom ati'n gyflym i ddatblygu sianeli cyfathrebu er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn dal wedi'u cysylltu, gan gynnal arolygon pỳls rheolaidd o'r staff a rhannu adborth er mwyn sicrhau bod cydweithwyr yn cael lleisio barn, newid ein darpariaeth dysgu a datblygu i ddarpariaeth ar-lein, a rhoi amrywiaeth eang o drefniadau cymorth ar waith a chefnogi cydweithwyr nad oeddent yn gallu gweithio yn ôl yr arfer am ba reswm bynnag.

Mae'r egwyddor honno: hunan, teulu, gwaith .... yn y drefn honno, wedi llunio ein hymateb sefydliadol dros y chwe mis diwethaf. Mae fy nyled yn fawr i holl staff Archwilio Cymru am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus drwy'r cyfnod heriol hwn.

Hoffwn hefyd ddiolch i Isobel Everett y daw ei rôl ei ben ym mis Hydref ar ôl saith mlynedd fel Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r sefydliad a ddisgrifir yn yr Adroddiad Interim hwn, a'r ffordd y mae wedi ymateb i'r tarfu digynsail a welwyd yn ystod y chwe mis diwethaf, yn dyst i'r arweinyddiaeth a roddwyd ganddi. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos â'n Cadeirydd newydd, Lindsay Foyster, wrth i ni adeiladu ar y sylfaen honno i ddatblygu'r sefydliad ymhellach.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Hwn yw'r adroddiad ffurfiol olaf y byddaf yn ei osod ar ran y Bwrdd. Yn ei ragair, mae Adrian wedi disgrifio'r camau dewr ond gofalar y mae'r sefydliad wedi eu cymryd dros y chwe mis diwethaf, i gefnogi ein staf a sicrhau bod uchelgeisiau Archwilio Cymru yn cael eu cyflawni hyd y gellir. Mae cadernid yr holl staff a'r arweinyddiaeth a ddangoswyd drwy gydol y cyfnod hwn yn amlwg yn yr allbynnau a'r canlyniadau a amlinellwn yn yr Adroddiiad Interim hwn.

Yn ogystal â'r Bwrdd, hoffwn innau hefyd ddiolch am ymdrechion pawb, yn broffesiynol ac yn bersonol, sydd wedi ein helpu i fod yn y sefyllfa hon. Gwn, er bod y sefydliad yn wynebu rhagor o ansicrwydd o ganlyniad i COVID-19, ei fod yn barod i elwa ar y rhinweddau sydd wedi ein helpu i gyrraedd y sefyllfa hon.



**Isobel Everett**
Cadeirydd Swyddfa
Archwilio Cymru

# Cyflawni gwaith archwilio

## Gwaith craidd

Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrff cyhoeddus

Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**

Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£2.5 biliwn**

Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis

**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith Pwyllgorau'r Senedd

Rhannu'r **arferion da** a welwn mewn **gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru**

Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll** a gwall drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol

Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

## Gwaith archwilio lleol

1 Yn sgil y tarfu anochel ar ein rhaglenni gwaith yn ystod camau cynnar pandemig COVID-19, mae gwaith archwilio ar y safle wedi'i atal dros dro o hyd, ond rydym wedi parhau i weithio gyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a chysylltu o bell â nhw, yn bennaf drwy ddefnyddio technoleg a llwyfannau cyfathrebu fideo.

2 Mae ein gwaith archwilio ariannol yn hollbwysig o ran rhoi asesiad annibynnol parhaus o drefniadau rheoli a chadernid ariannol ledled y sector cyhoeddus i'r Senedd, cyrff a archwilir a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Mae'n dda gennym nodi ein bod ar y trywydd cywir i gyflawni ein rhaglen lawn o waith archwilio cyfrifon ar gyfer 2019-20, ond dros gyfnod mwy estynedig.

3 Cwblhawyd pob un o'n harchwiliadau o gyfrifon y GIG ar gyfer 2019-20 a rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn arnynt erbyn 2 Gorffennaf. Cwblhawyd llawer o'n harchwiliadau o gyfrifon llywodraeth leol a chanolog ar gyfer 2019-20, a rhoddwyd barn arnynt, erbyn diwedd mis Medi 2020. Caiff y lleill eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref, pan fydd y cylch archwilio nesaf (2020-21) yn dechrau.

4 Wynebwyd sawl her wrth i ni gyflawni'r gwaith hwn, nid yn unig o ran sut a ble y byddem yn cynnal yr archwiliadau, ond hefyd o ran yr ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol a oedd yn deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae ein llwyddiant wrth barhau i gynnal archwiliadau o ansawdd mewn modd amserol yn adlewyrchu ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a swyddogion cyrff cyhoeddus i dderbyn a galluogi ffyrdd newydd o weithio a bod yn hyblyg ac yn ystyriol o'r materion lu sy'n codi.

5 Ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad hwn, mae gwaith bellach wedi dechrau ar ein rhaglen waith ardystio grantiau ac ar archwilio tua £320 miliwn o arian Ewropeaidd a ddefnyddir i gefnogi ffermwyr ac amaethyddiaeth ledled Cymru. Disgwyliwn i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2021.

6 Rydym wedi ail-lunio ein cynlluniau archwilio ym maes llywodraethau a gwerth am arian mewn cyrff unigol a archwilir yn y GIG a llywodraeth leol yn sylweddol er mwyn canolbwyntio ar y materion sydd fwyaf perthnasol i'r sefyllfa bresennol sy'n parhau i ddatblygu.

7 Mae hyn wedi cynnwys datblygu rhaglen o waith dysgu gwersi COVID a newid cwmpas ein rhaglenni er mwyn ymdrin yn helaethach â materion megis cynlluniau adfer. Rydym hefyd wedi cynnwys gwaith ar Brofi, Olrhain a Diogelu yn ein rhaglenni lleol. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau bod unrhyw sylwadaeth gychwynnol a lunnir gennym (boed ar lefel leol neu genedlaethol) yn cael ei chyflwyno mewn pryd i lywio'r gwaith o ddatblygu prosesau Profi, Olrhain a Diogelu sy'n mynd rhagddo yng nghyd-destun cynllunio ar gyfer y gaeaf.

8 Nid ydym yn cynnal archwiliadau ffurfiol o'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'i nodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn 2020-21. Fodd bynnag, rydym yn manteisio ar y cyfle i gasglu gwybodaeth berthnasol drwy ein rhaglenni gwaith diwygiedig, fel y bo'n briodol.

9 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio a gynhelir yn y cyrff hynny yn **Atodiad 1**.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

10 Fel yr amlinellwyd yn fanylach yn ein Cynllun Blynyddol ym mis Mawrth, yn ein barn ni, roedd y prif ffactorau yn ein hamgylchedd gweithredu a fyddai'n dylanwadu ar y ffordd rydym yn ymgymryd â'n gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel a ganlyn:

- a goblygiadau Brexit;
- b ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru;
- c argyfwng yr hinsawdd;
- ch heriau economaidd-gymdeithasol; a
- d chymdeithas fwyfwy rhwydweithiol.

11 Mae ein rhaglen waith genedlaethol bob amser wedi cynnwys rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau sy'n newid a materion sy'n achos pryder i'r cyhoedd neu'r Senedd, felly, gyda goblygiadau pandemig COVID-19 yn cael eu hychwanegu'n hwyr at y rhestr honno, rydym wedi dangos yr hyblygrwydd hwnnw eleni yn fwy nag erioed o'r blaen.

12 Ers dechrau'r cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mawrth, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Senedd i gefnogi ei waith craffu ei hun ar agweddau ar ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Rydym hefyd wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddfeydd archwilio eraill yn y DU er mwyn trafod ymatebion ein gilydd i'r pandemig.

13 Er nad ydym wedi cyhoeddi unrhyw adroddiadau sy'n canolbwyntio'n benodol ar yr ymateb i COVID-19 nac effaith y pandemig eto, rydym wedi ail-lunio llawer o'n gwaith arfaethedig i'w osod yn y cyd-destun hwn. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r sylwadaeth yn ein hadroddiadau diweddar ar Mynd i'r Afael â Thwyll, Ailddechrau Gofal wedi'i Gynllunio y GIG a Cysgu Allan.

14 Rydym hefyd wedi penderfynu bwrw ymlaen ag ychydig o waith ychwanegol ar Gyfarpar Diogelu Personol. Disgwyliwn y bydd ein ffocws yn bennaf ar edrych i'r dyfodol, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o'r ymateb cychwynnol a'r trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau ynglŷn â pharhad cyflenwadau a threfniadau dosbarthu effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

15 Ochr yn ochr â hynny, fel rhan o'n hymateb i'r amgylchiadau newidiol, yn anochel, bu'n rhaid i ni ailflaenoriaethu ein gwaith ryw ychydig. Mae rhai o'r prosiectau roeddem yn bwriadu eu dechrau'n wreiddiol yn ail hanner y flwyddyn ariannol wedi cael eu hatal dros dro, ac rydym bellach yn debygol o edrych eto ar y pynciau hynny (sy'n cynnwys adolygiadau dilynol o seilwaith band eang, tai fforddiadwy, a rheoli'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol) fel rhan o'n gwaith cynllunio ar gyfer 2021-22.

16 Rydym hefyd wedi cwtogi ar rai o'n cynlluniau i ymgymryd â gwaith manylach ac allbynnau annibynnol er mwyn arbed amser yn gyffredinol neu adlewyrchu lle na fu modd cwblhau gwaith maes arfaethedig. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith ar gynllunio'r gweithlu ar gyfer Llywodraeth Cymru, a rheoli grantiau'n gyffredinol, lle y byddwn yn defnyddio ein sylwadaeth arfaethedig ar gyfrifon Llywodraeth Cymru i roi ychydig o ddadansoddiad lefel uchel cychwynnol yn y meysydd hyn. O ran rheoli grantiau, efallai y byddwn wedyn yn ystyried pennu cwmpas newydd i'r gwaith hwn wrth i ni ystyried datblygiadau perthnasol o ran COVID-19.

17 Yn gyffredinol, rydym yn hyderus y byddwn yn cwblhau o leiaf 18 o'n hadroddiadau cenedlaethol yn 2020-21, sef ffigur sy'n gyson â'r targed a'r alldro a nodwyd ar gyfer 2019-20.

18 Ceir rhestr gyfredol o'r gwaith sydd wedi'i gwblhau, y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo a gwaith newydd y bwriadwn ei wneud yn ddiweddarach yn 2020-21 fel rhan o'n rhaglen genedlaethol yn **Atodiad 2**.

## Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

19 Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, bu allbynnau ein gwaith yn sail i naw cyfarfod o Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd (a gynhaliwyd drwy lwyfan cyfathrebu fideo).

20 Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mynd ati'n ddiymdroi i ymaddasu i heriau'r sefyllfa bresennol ac mae bellach yn rhan o'r 'norm arferol' i ni fynychu cyfarfodydd eu Pwyllgorau Archwilio a Chraffu drwy lwyfannau cyfathrebu fideo er mwyn rhoi briffiadau rheolaidd a chyflwyno adroddiad ar ein gwaith archwilio.

21 Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad ar-lein i Aelodau'r Senedd, eu staff cymorth a staff y Senedd, pan rannodd yr Archwilydd Cyffredinol ganfyddiadau ei adroddiad statudol cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020. Cynhaliwyd y digwyddiad ar y cyd â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a rannodd ganfyddiadau ei hadroddiad cyfatebol. Rhoddodd y sesiwn gyfle i ystyried negeseuon allweddol cyn ymchwiliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r ddau adroddiad, gyda'r nod o helpu i lywio gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar y Ddeddf yn y dyfodol.

22 Yn **Atodiad 3**, rydym yn rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut rydym wedi cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac, yn fwy cyffredinol, am ein cefnogaeth i brosesau craffu effeithiol ac atebolrwydd yn hanner cyntaf 2020-21.

## Gwaith arfer da

23 Un ffocws allweddol ar ein gwaith arfer da yw hwyluso sgyrsiau rhwng darparwyr gwasanaethau, lle caiff gwersi a ddysgwyd o'n gwaith archwilio, ac o'u profiadau cymharol, eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn fwyfwy, rydym yn cyflwyno barn a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau ac arbenigwyr rhyngwladol i'r sgyrsiau hyn.

24 Ni fu ein dull gweithredu mwyaf cyffredin o hwyluso sgyrsiau o'r fath – cynnal seminarau dysgu ar y cyd – yn opsiwn hyfyw yn 2020-21 oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd. O ganlyniad, cafodd pob un o'r seminarau dysgu ar y cyd a restrwyd yn ein Cynllun Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2020-21 eu canslo.

25 Yn hytrach, mae ffocws ein gwaith arfer da wedi newid i gyflawni prosiect dysgu gwersi COVID, lle mae ein staff yn casglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg ac yn eu dadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu sylw at bwyntiau dysgu perthnasol. Yna, rydym yn rhannu ein dealltwriaeth â chysylltiadau allweddol ym mhob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ymhlith allbynnau'r prosiect hwn mae nifer o flogiau a phapurau gwyntyllu o sylwedd, ac e-bost 'Crynodeb' wythnosol sy'n crynhoi'r cynnwys a rannwyd a'r pwyntiau o ddiddordeb.

26 Mae'r gyfres lawn o flogiau ar gael drwy ein gwefan. Ymhlith yr enghreifftiau nodedig a gyhoeddwyd yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020 mae'r canlynol:

- Profi, Olrhain, Diogelu – pa mor hawdd yw hi i gael gwybodaeth?
- Gwersi rhyngwladol i gyrff cyhoeddus Cymru wrth ymateb i COVID-19 ac adfer o hynny
- Dawnsio i guriad newydd: ymateb nesa'r gwasanaethau cyhoeddus i COVID-19
- Democratiaeth cynghorau lleol – llacio'r cyfyngiadau
- Cyllid COVID-19 Llywodraeth Cymru
- Gadael yr ogof...
- Iechyd meddwl yn ystod COVID-19
- Cydymffurfio â'n terfynau amser ar gyfer cyfrifon wrth weithio gartref

27 Rydym bellach wrthi'n datblygu rhaglen o weminarau i gefnogi'r cynhyrchion hyn gyda phwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth ymarferol rhwng cymheiriaid ac ymarferwyr.

28 Hefyd, gwnaethom gynnal gweminar ym mis Medi 2020, a oedd yn gysylltiedig â'n rhaglen o astudiaethau cenedlaethol yn dwyn y teitl: Sut mae cyrff cyhoeddus wedi bod yn addasu eu trefniadau seibergadernid yn ystod y cyfnod clo

# Meysydd ffocws

29 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, nodwyd 11 o feysydd ffocws ar gyfer ein gwaith archwilio yn 2020-21. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o'r ymrwymiadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tabl canlynol.

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Gwella'r ffordd rydym yn cyrchu, yn cael ac yn dadansoddi data, gan gynnwys drwy awtomeiddio tasgau syml ac ailadroddus fel y gallwn ganolbwyntio ar feysydd sydd â risg uwch y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt. | Rydym wedi cyrraedd blwyddyn olaf gweithredu strategaeth a rhaglen waith tair blynedd ar ddadansoddi data. Mae datblygiadau yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon wedi cynnwys:<br>• sefydlu tîm dadansoddi data parhaol;<br>• ystyried sut y gallwn ddefnyddio dulliau awtomeiddio prosesau digidol (botiau) i awtomeiddio tasgau syml ond llafurus;<br>• gweithio ar gyfres o adnoddau a chymwysiadau i ymgorffori gwaith dadansoddi data yn ein gwaith archwilio cyfrifon;<br>• cyflymu'r gwaith o ddarparu mynediad o bell at gyfriflyfrau a systemau ariannol allweddol y GIG a chyrff llywodraeth leol, er mwyn ein galluogi i gynnal ein gwaith archwilio cyfrifon heb fod angen ymweld â safleoedd yn ystod y pandemig; a<br>• mesur yr arbedion a'r arbedion effeithlonrwydd posibl yn y dyfodol a gaiff eu sicrhau drwy ddefnyddio dull archwilio a hwylusir gan ddata. |
| Gwella'r ffordd rydym yn delweddu ac yn cyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys drwy gyhoeddi amrywiaeth ehangach o adnoddau data rhyngweithiol a buddsoddi yn y gwaith o wella sgiliau ymgysylltu a dylanwadu ein staff ymhellach. | Mae ein defnydd o adnoddau data a dulliau adrodd rhyngweithiol wedi parhau i ddatblygu dros hanner cyntaf y flwyddyn hon, ond bu oedi cyn cyflwyno rhai cynhyrchion arfaethedig oherwydd anawsterau i gael gafael ar ddata yn ystod y pandemig. Mae allbynnau allweddol wedi cynnwys:<br>• diweddaru adnoddau data Cyllid GIG Cymru a gwariant GIG Cymru ar staff asiantaeth ac<br>• adnodd i gefnogi ein hadroddiad ar Cysgu allan yng Nghymru, a oedd hefyd wedi'i ategu gan gyfres o flogiau gan gynnwys Mae data'n rhan o'n bywydau pob dydd, a oedd yn edrych ar ôl troed data rhywun sy'n cysgu allan a'r ffordd y mae angen i gyrff cyhoeddus wneud defnydd mwy deallus o'r data hynny. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Ymgysylltu ag amrywiaeth ehangach o gynulleidfaoedd i roi canlyniadau ein gwaith archwilio ariannol, gan gynnwys drwy ddatblygu allbynnau newydd sy'n esbonio, mewn iaith symlach, wybodaeth a thueddiadau allweddol o gyfrifon cyrff cyhoeddus. | Rydym wedi parhau i wella ein presenoldeb a'n perthnasedd dros y chwe mis diwethaf drwy lunio cynhyrchion mwy modern a haws eu defnyddio sy'n ymwneud â'n gwaith archwilio cyfrifon. Yn ogystal â'r adnoddau data ariannol a restrir uchod, mae hyn yn cynnwys sylwadaeth symlach a ffeithluniau ar y we ynghylch:<br>• cyfrifon cryno'r GIG yng Nghymru; a<br>• chyfrifon cynghorau unigol yng Nghymru. |
| Ystyried yn fanylach y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau mewn ffordd integredig a chydweithredol, gan gynnwys trefniadau gofal iechyd parhaus, y ffordd y darperir gwasanaethau brys a'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gweithredu. | Yn ein Cynllun Blynyddol, nodwyd sawl allbwn a oedd yn cyd-fynd â'r ymrwymiad hwn, y cafodd nifer ohonynt eu cwblhau i raddau sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill a 30 Medi:<br>• Crynodeb o ganlyniadau ein harchwiliadau a gynhaliwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Felly, beth sy'n wahanol?;<br>• Cam dau o adolygiad o drefniadau partneriaeth sy'n ymwneud â phobl sy'n cysgu allan yng Nghymru – Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb; ac<br>• Archwiliad o System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, a gyhoeddwyd ar 15 Hydref 2020. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
| --- | --- |
| Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n cylch cyntaf o archwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy a phenderfynu sut y byddwn yn datblygu ein dull archwilio yn y maes hwn ymhellach. | Ym mis Mai, cyhoeddwyd ein hadroddiad statudol cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Felly, beth sy'n wahanol? Yn yr adroddiad, ystyriwyd sut roedd cyrff cyhoeddus ledled Cymru wedi cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf, hyd yma, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.<br><br>Cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru adroddiad cysylltiedig ar yr un pryd, ac roeddem wedi bwriadu cynnal digwyddiad dysgu ar y cyd i arweinwyr yn y sector cyhoeddus gyda'n gilydd ym mis Medi. Yn anffodus, penderfynwyd gohirio'r digwyddiad oherwydd yr ail don o achosion o COVID-19 ledled Cymru, ond parhawyd â'n cynlluniau i rannu ein canfyddiadau ag Aelodau'r Senedd, eu staff a staff Comisiynydd y Senedd drwy weminar a drefnwyd ymlaen llaw. Ar 7 Hydref 2020, cyflwynwyd canfyddiadau'r adroddiadau ar y cyd hefyd i grŵp o uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru.<br><br>Rydym wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar ar y dull i'w fabwysiadu wrth gynnal ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy dros y pum mlynedd nesaf. |
| Rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd trefniadau rheoli ariannol cadarn ym maes cyllid cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyflwyno trefniadau cryfach ar gyfer archwilio cynghorau cymuned a thref. | Mae allbynnau allweddol dros y chwe mis diwethaf sy'n ymwneud â'r maes ffocws hwn wedi cynnwys:<br>• diweddaru adnodd data cyllid y GIG gan ystyried tueddiadau yng nghyllid y GIG;<br>• adroddiad yn nodi bod gweithgareddau twyll wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pandemig, Gwella ein Perfformiad – Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru; ac<br>• adroddiad a oedd yn ystyried Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19.<br><br>Cafodd ein hadroddiad ar yr ymarfer mwyaf diweddar o dan y Fenter Twyll Genedlaethol ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac rydym hefyd wedi ymestyn cwmpas ein gwaith ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn 2020 er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gynnal gwiriadau cymhwysedd ar geisiadau am grantiau cymorth COVID-19. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru gyflwyno data o'r fath ar grantiau a thaliadau i'r Fenter Twyll Genedlaethol er mwyn helpu i nodi ceisiadau twyllodrus. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Diweddaru'r adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' gan nodi'r heriau allweddol y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu ar hyn o bryd ac i ba raddau y maent mewn sefyllfa dda i ymateb, er mwyn llywio gwaith y Senedd ar ôl etholiadau 2021. | Mae ein gwaith cynllunio ar gyfer y prosiect hwn yn mynd rhagddo, ond mae'r amserlen yn heriol o dan yr amgylchiadau presennol, felly mae'r prosiect yn cael ei ailgwmpasu yn unol â hynny.<br><br>Rydym yn debygol o gyhoeddi'r prif adroddiad o'r gwaith hwn ar ôl etholiadau 2021 ond rydym yn ystyried nifer o allbynnau gwahanol o dan fantell gyffredinol y prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddiweddariad ar ein dadansoddiad Tueddiadau o ran Gwariant Cyhoeddus ym mis Hydref a throsolwg o wariant ar COVID-19 yn 2020-21. |
| Datblygu cynigion ar gyfer y ffordd y byddwn yn ymateb drwy ein gwaith archwilio i'r heriau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan ystyried yr amcanion a nodir yn ein Blaengynllun Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau. | Rydym yn ymgymryd â gwaith ymchwil cychwynnol yn y maes hwn a byddwn yn ystyried canlyniadau'r gwaith hwnnw ochr yn ochr â'n gwaith i ddatblygu'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy.<br><br>Mae ein hymgynghoriad cyhoeddus ar y dull o gynnal ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy i'w fabwysiadu dros y pum mlynedd nesaf yn gwahodd barn ar faterion penodol y dylem gyflwyno adroddiadau arnynt, ym marn ymatebwyr, wrth ystyried yr heriau mawr y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu. Rydym yn tynnu sylw at yr argyfwng hinsawdd fel un o'r heriau hynny ac rydym wedi rhannu ein hymgynghoriad â rhai sefydliadau cynrychioliadol perthnasol.<br><br>Bydd yr adborth a gawn yn helpu i lywio'r broses o ddatblygu ein blaenraglen waith ar gyfer 2021-22. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Drwy ein Cyfnewidfa Arfer Da, ehangu'r amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i hwyluso'r broses o ddysgu ar y cyd y tu allan i'n rhaglenni craidd o seminarau a gweminarau. | Fel y disgrifir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at gyflwyno adroddiadau a rhannu gwersi a ddysgwyd am COVID-19 gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.<br>Canslwyd ein rhaglen o seminarau personol a datblygwyd prosiect dysgu am COVID yn lle ein dull dysgu ar y cyd. Mae'r allbynnau yn cynnwys nifer o flogiau a phapurau gwyntyllu o sylwedd, ac e-bost 'Crynodeb' wythnosol sy'n crynhoi'r cynnwys ac yn tynnu sylw at bwyntiau o ddiddordeb.<br>Rydym bellach wrthi'n datblygu rhaglen o weminarau i gefnogi'r cynhyrchion hyn gyda phwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth ymarferol rhwng cymheiriaid ac ymarferwyr. |
| Datblygu amrywiaeth ehangach o ddulliau o gasglu barn ein rhanddeiliaid ar werth ac effaith ein gwaith, gyda ffocws cychwynnol ar geisio barn Aelodau o'r Senedd. | Rydym yn cydnabod bod angen i ni ailfeddwl y ffordd rydym yn casglu barn gwahanol gynulleidfaoedd ar effaith a gwerth ein gwaith.<br>Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn tendro i benodi cwmni annibynnol i'n helpu i ddatblygu ein dull cyffredinol o gasglu adborth rhanddeiliaid, a chyflwyno arolwg i Aelodau o'r Senedd. |
| Ehangu ein trefniadau rheoli ansawdd archwilio er mwyn rhoi rhagor o sicrwydd bod ein holl waith wedi'i ategu gan dystiolaeth gadarn a dadansoddi trylwyr, a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn gyson â safonau archwilio rhyngwladol newydd. | Mewn ymateb i ddatblygu safonau ansawdd archwilio rhyngwladol ymhellach, rydym wedi archwilio'n feirniadol ein dull archwilio a'n trefniadau ansawdd yn ystod y misoedd diwethaf.<br>Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio newydd ei sefydlu am y tro cyntaf ar 30 Mehefin 2020. Mae aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys Pamela McCreedy, Prif Swyddog Gweithredu Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, a fydd yn gwasanaethu fel Aelod Proffesiynol Annibynnol.<br>Caiff y broses o ddatblygu ein model rheoli ansawdd newydd ei llywio gan ein rhaglen 'Archwilio Cyfrifon 2022' sy'n cynnwys cyfres o brosiectau strategol sy'n cefnogi ein gweledigaeth i ddarparu gwaith archwilio cyfrifon dibynadwy o safon uchel sy'n cefnogi dealltwriaeth a gwelliant. |

# Rhedeg y busnes

## Gwaith craidd




Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£22 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **270 o staff** a rheoli ystod amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

30 Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i fonitro'n fanwl sefyllfa COVID-19 sy'n newid yn gyflym a gweithredu'n unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Heblaw am gyfnod byr ym mis Medi pan ail-agorwyd ein swyddfeydd mewn ffordd gyfyngedig iawn, mae pob un o'n swyddfeydd wedi parhau i fod ar gau drwy gydol y chwe mis diwethaf mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, ac yn fwy diweddar, y cyfyngiadau symud lleol. Mae ein holl staff yn gweithio o bell yn eu cartrefi.

31 Ein blaenoriaethau o ran rhedeg y busnes fu ymaddasu a lleihau achosion o darfu ar ein gwaith archwilio a gweithrediad ein swyddogaethau gwasanaeth corfforol i'r eithaf, a sicrhau ein bod yn gwneud y peth cywir dros ein pobl, gan eu cadw'n ddiogel a monitro eu llesiant. Drwy gydol y cyfnod adrodd, ein hegwyddor fu 'hunan, teulu, gwaith … yn y drefn honno' ac mae'n parhau felly.

32 Ers i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020 ac ers i'n swyddfeydd gau dros dro, mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arwain Gweithredol wedi parhau i weithredu'n effeithiol drwy ddefnyddio llwyfannau cyfarfod ar-lein.

33 Ar 4 Mai 2020, cynhaliodd y Bwrdd gyfarfod a gynullwyd yn arbennig a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

a cael sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd ymateb rheolwyr i argyfwng COVID-19;

b cael gwell dealltwriaeth o'r goblygiadau o ran cyflawni Cynllun Blynyddol 2020-21 a'r sefyllfa ariannol; a

c chynnal adolygiad o'r ychwanegiadau cysylltiedig i'r gofrestr risgiau strategol.

34 Canmolodd y Bwrdd ymateb y rheolwyr, gan werthfawrogi'r amser a'r ymdrech a fuddsoddwyd i fynd i'r afael â'r argyfwng a chydnabod pwysigrwydd cydbwyso llesiant cyflogeion a chyflawni ein busnes. Cafodd yr aelodau sicrwydd bod gennym sylfaen gadarn i ddatblygu ein syniadau ar ein sefyllfa yn yr hirdymor.

35 Ers hynny, mae'r Bwrdd wedi cael diweddariadau rheolaidd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar y ffordd y mae ein hymateb wedi datblygu, ac mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad lefel uchel o'r ffordd rydym wedi rheoli argyfwng COVID-19 a pharhad busnes. Caiff canlyniadau'r adolygiad eu cyflwyno i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2020.

36 Yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig bu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg ymhlith ein timau a chyda'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym. Mae ein strategaeth barhaus ar fuddsoddi mewn TG, a oedd yn cynnwys buddsoddi £63,000 mewn gliniaduron hybrid newydd yn 2019-20, a oedd yn galluogi'r staff i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol gartref, wedi ein galluogi i symud yn gymharol ddidrafferth i drefniadau gweithio o bell.

37 Un elfen allweddol arall o'n hymateb fu'r defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o gyfryngau a dulliau o gysylltu â'n cyflogeion, gan roi sicrwydd a'r diweddariadau hanfodol ar y sefyllfa fel mae'n datblygu, gwybodaeth ynglŷn â sut y gallant gael gafael ar adnoddau a chymorth, a chasglu adborth ar eu profiadau er mwyn helpu i nodi unrhyw feysydd sy'n achosi pryder.

38 Mae'r dulliau hyn wedi cynnwys:

a negeseuon wythnosol i'r holl staff oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol;

b cyhoeddi blogiau rheolaidd gan aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol;

c cynnal arolygon 'teimlo pỳls' o bryd i'w gilydd;

ch cynnal briffiadau a sesiynau holi ac ateb i'r staff cyfan drwy lwyfannau cyfathrebu fideo; a

d rhaeadru gwybodaeth yn rheolaidd i reolwyr llinell.

39 Hefyd, ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, rydym yn cynnal ein harolwg blynyddol i'r staff cyfan. Unwaith eto, rydym yn defnyddio'r un holiadur arolwg craidd ag a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil er mwyn cael meincnodi'n effeithiol a chymharu o flwyddyn i flwyddyn. Eleni, cynhwyswyd adran ychwanegol fer sy'n archwilio profiadau unigolion o weithio yn Archwilio Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19).

40 Mae ein staff wedi gweithio'n hynod galed i barhau i gyflawni ein gwaith mewn amgylcheddol hollol wahanol a heriol. Drwy'r cyfan, rydym wedi blaenoriaethu llesiant ein staff ac wedi derbyn bod y pandemig, yn anochel, wedi cael effaith ar ein gallu cyffredinol wrth i gydweithwyr ymdopi â chyfrifoldebau gofalu, gwarchod ac effeithiau uniongyrchol eraill y feirws. Mae hyn yn effeithio ar dimau archwilio a gwasanaethau corfforaethol i wahanol raddau ac rydym yn rhagweld y bydd rhagor o heriau o ran adnoddau drwy gydol y gaeaf, yn dibynnu ar ddatblygiadau ehangach COVID-19.

41 Daw tua dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid arall yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac mae'r Bwrdd yn craffu ar ein defnydd o'r cyllid hwnnw yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Nodwyd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2020-21 yn wreiddiol mewn Amcangyfrif, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2019.

42 Fodd bynnag, yng nghanol cyfyngiadau symud y DU gyfan ar ddechrau blwyddyn ariannol 2020-21, roeddem yn wynebu risg wirioneddol o leihad sylweddol yn incwm ffioedd archwilio am nad oedd yn glir i ba raddau y byddem yn gallu gwneud ein gwaith archwilio lleol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn - yn enwedig ein gwaith archwilio perfformiad.

43 Ar ôl ailwampio ein rhaglen archwilio'n sylweddol ac ymdrech fawr ar y cyd gan ein staff a swyddogion y cyrff cyhoeddus perthnasol i'n galluogi i gynnal gwaith archwilio o bell, yn ystod chwe mis cyntaf 2020-21 llwyddwyd i wneud mwy o waith ac felly gynhyrchu cyfran fwy o'n hincwm ffioedd arfaethedig na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn seiliedig ar amcanestyniadau a gloriannodd y sefyllfa a oedd yn datblygu drwy fis cyntaf cyfnod y cyfyngiadau symud.

44 Hefyd, rydym wedi lleihau ein gwariant drwy adolygu anghenion gwariant hanfodol ar ddechrau'r flwyddyn, gan wneud arbedion ym maes teithio a chynhaliaeth a chostau ystad, a chanslo digwyddiadau dysgu ar y cyd a gynlluniwyd na allent fynd rhagddynt mwyach.

45 Ond, i ryw raddau, mae'r arbedion hyn wedi cael eu gwrthbwyso gan gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â sicrhau bod gan ein staff yr holl gyfarpar sydd ei angen arnynt ac y gallant weithio'n ddiogel gartref a sicrhau bod ein swyddfeydd yn ddiogel i'w hailagor.

46 Fel mesur rhagofalus, ysgrifennwyd at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Gorffennaf 2020 i nodi, er ein bod wedi llwyddo i wrthbwyso lleihad mewn incwm ffioedd drwy arbedion gwariant cyfatebol i raddau helaeth, ein bod yn wynebu cryn ansicrwydd o hyd yn y misoedd i ddod. Nodwyd yn ein llythyr y bydd angen o hyd o bosibl i ni gyflwyno Amcangyfrif Atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer cyllid ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn gwrthbwyso effeithiau ar lefelau incwm o ganlyniad i ohirio gwaith archwilio, ei wneud dros gyfnod estynedig neu ei atal dros dro. Wrth i ail don y feirws gynyddu, erys yr ansicrwydd hwn.

## Meysydd ffocws

47 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol, nodwyd chwe maes ffocws ar gyfer rhedeg ein busnes yn 2020-21. Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni pob un o'r ymrwymiadau hyn yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn yn y tabl canlynol.

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Ailstrwythuro ein huwch dîm gweithredol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb â'n huchelgeisiau cyffredinol a chryfhau'r arweinyddiaeth strategol a roddir i'r staff. | Rydym wedi dechrau ailstrwythuro ein huwch dîm rheoli drwy benodi Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn cynnal ymarferion recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Newid. |
| Gwneud newid mawr i'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn rheoli prosiectau newid mawr, gan gynnwys drwy gymhwyso arferion rheoli newid mwy trylwyr a chyson. | Yn ystod y chwe mis diwethaf, ar ôl sefydlu Tîm Rhaglen Newid canolog penodol i gydlynu'r gwaith cyflawni a sicrhau dull gweithredu cyson, rydym wedi parhau i gymryd camau i wella'r ffordd o gyflawni pob math o brosiectau newid yn Archwilio Cymru.<br><br>Mae hyn wedi cynnwys dwyn ynghyd bortffolio o brosiectau newid â blaenoriaeth, sefydlu Bwrdd Rhaglen Newid i gefnogi a goruchwylio'r broses gyflawni a rhoi adnoddau ar gyfer gweithredu, a meithrin ein sgiliau newid ym mhob rhan o Archwilio Cymru. |
| Gwella ein proffil cyhoeddus drwy ddatblygu llais corfforaethol mwy allblyg ac unigryw a gwneud ein hunain yn fwy adnabyddadwy drwy fabwysiadu'r hunaniaeth fantell 'Archwilio Cymru'. | Ar 1 Ebrill 2020, casglwyd ynghyd wahanol elfennau ein gwaith o dan yr hunaniaeth fantell gliriach, newydd, sef Archwilio Cymru.<br><br>Ers hynny, mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i foderneiddio ein hadroddiadau archwilio a chynnwys ein gwefan a rhoi ffocws newydd iddynt, gan gynnwys defnyddio delweddau, adnoddau data a dulliau adrodd rhyngweithiol. Mae hyn hefyd wedi cynnwys defnydd mwy rhagweithiol o flogiau i dynnu sylw'r cyhoedd at uchafbwyntiau a diweddariadau mewn perthynas â'n canfyddiadau mewn ffordd amserol a mwy hygyrch. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Cryfhau ein strategaeth i ddenu, cadw a datblygu gweithlu hyfedr ac amrywiol, gyda ffocws penodol ar sicrhau bod ein prosesau recriwtio, rheoli talent a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn cael eu hadnewyddu a'u bod yn addas at y diben. | Rheoli talent a chynllunio'r gweithlu yw un o'r meysydd allweddol â ffocws ar gyfer ein Strategaeth Gweithlu ddiwygiedig, a gymeradwywyd gan y Tîm Arwain Gweithredol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2020.<br><br>Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan Gynllun Cyflawni manwl ar gyfer y Gweithlu, y caiff cynnydd yn ei erbyn ei fonitro bob chwarter gan ein Tîm Arwain Gweithredol a'n Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Adnoddau Dynol. |
| Parhau i roi cymorth i Bwyllgor Cyllid y Senedd ar ei waith i fynd i'r afael â chymhlethdod diangen ein trefniadau codi ffioedd statudol a'n trefniadau llywodraethu. | Y llynedd, ac ar ddechrau'r flwyddyn hon, rhoddwyd briffiad helaeth i helpu'r Pwyllgor Cyllid i ddatblygu Bil i ddiwygio ein gofynion codi ffioedd statudol a llywodraethu, er mwyn lleihau cymhlethdod.<br><br>Yn anffodus, mae'n annhebygol iawn y byddai'r Bil yn cael ei basio heb gefnogaeth Llywodraeth Cymru ac er i'r Gweinidog fynegi ei chefnogaeth iddo'n glir ym mis Gorffennaf 2019, ers hynny mae safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid. Felly, mae'r Pwyllgor wedi atal ei waith ar y Bil dros dro ac mae'n annhebygol o fwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith hwnnw tan ar ôl yr etholiad ym mis Mai 2021. Rydym yn barod i roi rhagor o gymorth i'r Pwyllgor unwaith y bydd yn ailddechrau ei waith ar y Bil. |

| Maes ffocws | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma |
|---|---|
| Ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, gan gynnwys pan fyddwn yn cynnal adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff, yn datblygu cynigion ar gyfer diwallu ein hanghenion ar gyfer swyddfeydd yn y dyfodol, ac yn arbrofi â ffyrdd newydd mwy effeithlon a deallus o weithio. | Er nad ydym yn un o'r cyrff sydd wedi'u rhestru at ddibenion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn ceisio cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ein gweithrediadau. Mae gwaith wedi mynd rhagddo dros y chwe mis diwethaf i ddatblygu cynigion ar gyfer diwallu ein hanghenion yn y dyfodol o ran swyddfeydd ac arbrofi â ffyrdd newydd a mwy effeithlon a deallus o weithio. Bydd yr adolygiad o drefniadau teithio a chynhaliaeth ein staff yn dechrau'n llawn cyn hir.<br><br>Mae ein Bwrdd wedi nodi tair ffordd o gyflawni ei ymrwymiad i ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau helaethach yn ein prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig mewn perthynas â'r prosiectau hyn:<br><br>• herio'r cynigion, y cynlluniau a'r strategaethau sy'n dod ger ei fron i benderfynu arnynt;<br>• ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn y ffordd y mae'n cynnal ei fusnes; a<br>• cheisio sicrwydd gan reolwyr ynglŷn â sut y caiff y pum ffordd o weithio eu cymhwyso drwy'r sefydliad cyfan. |

# Dangosyddion perfformiad allweddol

Crynhoir y sefyllfa ar 30 Medi 2020 o ran cyflawni targedau ein 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol isod.

## DPAau sy’n ymwneud â chyflawni gwaith archwilio

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd yn unol â'r terfyn amser statudol gofynnol. | 100% | 100%<br>Ar y trywydd cywir[1] |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnir yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol. | 90% | 93%<br>Ar y trywydd cywir |
| 3 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a adolygwyd a ddarperir yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol. | Roedd 100% o'r sampl a aseswyd yn foddhaol neu'n uwch, ac roedd 90% yn dda neu'n uwch | Ddim ar gael eto[2] |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn adroddwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraeth a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. | O leiaf 90% | 100%<br>Ar y trywydd cywir |

1 O dan reoliadau newydd ymestynnwyd y terfynau amser statudol i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gyhoeddi cyfrifon blynyddol 2019-20 a sicrhau eu bod ar gael i’w harchwilio gan y cyhoedd.

2 Caiff adolygiadau eu cynnal yn ail hanner 2020-21.

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Darparu Dirnadaeth | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael dirnadaeth ddefnyddiol na fyddent wedi ei chael fel arall | O leiaf 80% | 94%<br>Ar y trywydd cywir |
| 6 | Ysgogi gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau i'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus | O leiaf 80% | 88%<br>Ar y trywydd cywir |
| 7 | Arbedion a nodwyd | Gwerth arbedion posibl a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2018-2021 | £25.7 miliwn[3]<br>Ar y trywydd cywir |
| 8 | Digwyddiad-au arfer da | Cyfran y bobl a ddaeth i'n seminarau a'n gweminarau a ystyriodd y digwyddiadau yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | Dd/G[4] |
| 9 | Ymweliadau â'n gwefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan pan fo o leiaf un weithred yn cael ei chyflawni, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.. | 25,000 y flwyddyn | 14,789<br>Ar y trywydd cywir |
| 10 | Cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau ar gyfryngau cymdeithasol, h.y. ymgysylltiadau â'n negeseuon trwy eu hoffi, trwy wneud sylw arnynt, neu drwy eu rhannu. | 1,300 y flwyddyn | 1,237<br>Ar y trywydd cywir |
| 11 | Rhannu dysg am archwilio | Number of instances where we present audit learning to key policy working groups or at relevant externally hosted events. | 50 y flwyddyn | 57<br>Ar y trywydd cywir |

3 Yn cynnwys arbedion posibl a nodwyd drwy ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol.

4 Cafodd pob seminar dysgu ar y cyd a restrwyd yn ein Cynllun Blynyddol gwreiddiol ar gyfer 2020-21 ei ganslo. Yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu cynnal digwyddiadau dysgu a rennir ar gyfer dros 1,100 o bobl yn ystod 2020-21.

## DPAau sy’n ymwneud â rhedeg y busnes

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed | Perfformiad hyd at 30 Medi |
|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran y sgôr mynegai ymgysylltu arolwg blynyddol y staff sy’n gadarnhaol (wedi ei gyfochri ag Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil) | O leiaf y sgôr 10% uchaf ar gyfer yr CSPS diweddaraf | Ddim ar gael eto[5] |
| 13 | Profiad cyflogeion | Canran y sgorau cadarnhaol profiad y cyflogeion yn arolwg thematig blynyddol y staff | O leiaf y sgoriau 25% uchaf ar gyfer yr CSPS diweddaraf | Ddim ar gael eto |
| 14 | Absenoldeb oherwydd salwch | Diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod o staff. | Llai na chwe diwrnod | 6.4 diwrnod<br>Yn agos at gyflawni’r targed |
| 15 | Mantoli ariannol | Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'i chymharu â’r hyn a nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol. | O fewn 2% i'r gyllideb | 0.5%<br>Ar y trywydd cywir |
| 16 | Arbedion o ran cosaut ac effeithlon-rwydd | Gwerth yr arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a nodwyd ym mhob rhan o'r busnes. | £1.3 miliwn yn 2020-21 | £1.7 miliwn<br>Ar y trywydd cywir |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau CO2 cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan a brynwyd, i’r hyn a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau. | 290 tunnell yn 2020-21 | 46 tunnell<br>Ar y trywydd cywir |
| 18 | Cyfradd llwyddo hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo’r tro cyntaf yn eu harholiadau Proffesiynol Lefel Uwch gyda Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr. | O leiaf 90% | 91%<br>Ar y trywydd cywir |

5 Cynhelir yr arolwg staff diweddaraf yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2020; caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ar ein gwefan maes o law.

# Atodiadau

1 Gwaith archwilio lleol

2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

| Corff cyhoeddus | Archwilio cyfrifon | Gwaith archwilio perfformiad lleol[6] | Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol |
|---|---|---|---|
| Comisiwn y Senedd | ✓ | | |
| Llywodraeth Cymru | ✓ | | ✓ |
| 8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru | ✓ | | ✓[7] |
| Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth | ✓ | | |
| 4 cwmni Llywodraeth Cymru | ✓ | | |
| 8 Comisiynydd, Arolygiaeth a Rheoleiddiwr | ✓ | | |
| 7 Bwrdd Iechyd Lleol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Ymddiriedolaeth y GIG ac Awdurdod Iechyd Arbennig | ✓ | ✓ | ✓[8] |
| 22 o gynghorau (Awdurdodau Unedol) | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4 Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl | ✓ | ✓ | |
| 3 Awdurdod Tân ac Achub | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9 Cronfa bensiwn | ✓ | | |
| Nifer o gyrff llywodraeth leol llai gan gynnwys cyd-bwyllgorau, ardaloedd draenio ac awdurdodau harbwr | ✓ | | |
| Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned | ✓[9] | | |

6 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Mae'r gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn ar hyn o bryd yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

7 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.

# 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno ar ganfyddiadau gwaith archwilio lleol mewn amrywiaeth o gyrff y GIG, llywodraeth ganolog a/neu lywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau mewn ymateb i bryderon cyhoeddus a nodwyd drwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol mewn gohebiaeth. Mae allbynnau cryn dipyn o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu'r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni.

| **Gwaith a gwblhawyd neu a gwblhawyd i raddau helaeth** | |
|---|---|
| Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol | 10 Cyfle i ailosod ac ailgychwyn system gofal wedi'i gynllunio y GIG |
| Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a ddyfarnwyd heb gystadleuaeth yn rhoi gwerth am arian | Deddfu gwell: yr her o roi deddfwriaeth ar waith |
| Cysgu allan yng Nghymru – problem i bawb; cyfrifoldeb i neb | Masnacheiddio mewn llywodraeth leol |
| Gwella ein Perfformiad - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru | Llywodraeth leol - cynaliadwyedd ariannol |
| Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Y Fenter Twyll Genedlaethol |
| Cracio'r cod: rheoli codio clinigol ledled Cymru | System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru |

| Gwaith sy'n mynd rhagddo neu a fydd yn dechrau cyn hir | |
|---|---|
| Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol | Cyfarpar Diogelu Personol |
| Gofal heb ei drefnu, adnodd data | Sylwadaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru |
| Trefniadau athrawon cyflenwi ar gyfer absenoldeb | Diwygio'r cwricwlwm |
| Sylwadaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru gan gynnwys<br>• Gweithlu Llywodraeth Cymru<br>• Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru | Effaith cyni cyllidol ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol |
| TGCh Llywodraeth Cymru | Adfywio Trefi yng Nghymru |
| Cadernid digidol cyrff cyhoeddus – seibergadernid | Taliadau uniongyrchol mewn llywodraeth leol |
| Gweinyddu cyllid myfyrwyr | Gwasanaethu brys – cydweithio |
| Rhaglen Cartrefi Clyd – Arbed a Nyth | Gwasanaethau orthopedig |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Y ddyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol |
| Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus | Cyfnod Pontio o'r UE |
| Asesiad strwythuredig o'r GIG – sylwadaeth gryno | |

# 3 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Mae ein gwaith yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, bu allbynnau o'n gwaith yn sail i naw cyfarfod o'r Pwyllgor (a gynhaliwyd drwy lwyfan cyfathrebu fideo). Mae hyn wedi cynnwys ystyriaeth gychwynnol o adroddiadau Archwilio Cymru ar y canlynol:

- Trefniadau ar gyfer Penodi Uwch Aelodau o Staff Dros Dro – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol;
- Sicrhau bod Grantiau Datblygu Gwledig a Ddyfarnwyd heb Gystadleuaeth yn rhoi Gwerth am Arian;
- Cysgu Allan yng Nghymru;
- Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru; ac
- Adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd.

Rydym hefyd wedi cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor a/neu adroddiadau ar amrywiol bynciau, gan ddefnyddio gwaith archwilio blaenorol lle y bo'n berthnasol:

- ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19, gan gynnwys cymorth ariannol i fusnesau;
- effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru;
- caffael cyhoeddus yng Nghymru;
- craffu ar gyfrifon; a
- gwella ffordd yr A465 Rhan 2.

Mae ein gwaith hefyd wedi llywio gwaith pwyllgorau eraill y Senedd y mae eu cylch gwaith ehangach yn cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig. Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae hyn wedi cynnwys:

- tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar i'r Pwyllgor Cyllid ar weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r fframwaith cyllidol;
- tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru); a
- thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd ar gapasiti'r Senedd.

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Yn ystod cyfnod yr adroddiad interim, ni fu modd i ni fod yn bresennol yn bersonol (fel y byddai'n digwydd fel arfer) yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff a archwilir gennym. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi mynd ati'n ddi-oed i ymaddasu i heriau'r sefyllfa ac rydym bellach yn mynychu cyfarfodydd o'r fath yn rheolaidd drwy ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu fideo.

Rydym yn parhau i roi briffiadau ac adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â chyngor a chymorth i atgyfnerthu effeithiolrwydd llywodraethu. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i'n rhaglenni gwaith mewn ymateb i sefyllfa COVID-19 ac ar godi ymwybyddiaeth o ganlyniadau allweddol y gwaith hwnnw.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl am y ffordd y caiff arian ac asedau cyhoeddus eu gwarchod.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, daeth 25 o eitemau o ohebiaeth i law a gwnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 10 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2020 gan nodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Pan fydd angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwiliol pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godir drwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, mae'r gwaith hwn yn gyffredinol yn cymryd ychydig mwy o amser na'r disgwyl oherwydd yr angen i weithio o bell. Os na allwn roi ateb terfynol i'r gohebydd/datgelwr o fewn 30 diwrnod gwaith, byddwn yn rhoi ymateb interim, gan gynnwys amcangyfrif o'r terfyn amser ar gyfer rhoi ateb llawn.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn
yn Gymraeg a Saesneg

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru